# Bywyd Crefyddol Ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru

**GWEITHGAREDDAU I DDYSGWYR**

**GWEITHGAREDD 1**

**a)** Edrychwch ar y ddwy ddelwedd sy'n ymwneud ag arferion crefyddol Iddewig, a darllenwch yr wybodaeth ategol.

***Cheder*:**




*Sesiynau* cheder *Beth Hamedrash Abertawe 1908-1909*.

*Delwedd: Cynulleidfa Hebraeg Abertawe.*

Roedd crefydd yn rhan bwysig o fywyd llawer o ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru. Roedd nifer yn mynychu synagogau.

Roedd llawer o'r plant yn mynychu ***cheder*** – sef ysgol Iddewig lle dysgir Iddewiaeth a’r iaith Hebraeg i blant (yn nodweddiadol ar gyfer plant oed cynradd a'r tu allan i oriau ysgol arferol).

### *Kashrut, kosher, schochet:*




*Llun o'r brodyr Krotosky yn eu siop cigydd yn Heol y Plwca, Caerdydd, 1984*.

*Llun trwy garedigrwydd Philip Kaye.*

Mae'r cyfreithiau deietegol Iddewig ***(kashrut)*** wedi eu gwreiddio yn y grefydd. Maent yn nodi pa fwydydd y gall neu na all Iddewon eu bwyta, a'r modd y mae'n rhaid paratoi'r bwyd cyn iddo gyrraedd y cartref ac yn y cartref.

Gelwir bwyd a ganiateir yn fwyd ***kosher***. Rhaid i gig gael ei baratoi gan ***schochet*** (lladdwr defodol). Gwaherddir porc a physgod cregyn, ac ni cheir cymysgu cig a llaeth.

Yn gyffredinol, po fwyaf Uniongred yw cefndir yr unigolyn, mwyaf manwl y bydd yn cadw'r rheolau hyn.

Roedd llawer o ffoaduriaid yng Nghymru yn cael trafferth cadw'n kosher, yn enwedig os oeddent yn byw ymhell i ffwrdd o drefi mawr neu ddinasoedd â phoblogaeth Iddewig bresennol. Nid oedd Ellen Davis, o deulu Iddewig Uniongred yn Hesse, yr Almaen, yn ymwybodol bod y sglodion yr oedd yn eu caru gymaint o'i siop pysgod a sglodion leol yn Abertawe wedi'u gwneud â braster porc, ac felly ddim yn kosher. Yn ei llyfr, *Kerry's Children: A Jewish Childhood in Nazi Germany and Growing Up in South Wales*, mae'n ysgrifennu:

> “O amgylch y gornel o'n tŷ ni safai siop pysgod a sglodion [sic] adnabyddus iawn o'r enw 'The Windsor'. Yn byw mewn teulu Iddewig Kosher, gwaharddwyd bwyta unrhyw beth nad oedd wedi'i goginio gartref. Wnes i erioed sylweddoli bod y sglodion blasus hyn […] wedi'u coginio mewn lard. Nid y byddwn wedi gwybod beth oedd lard. Roeddwn i bob amser yn gwybod bod unrhyw beth i'w wneud â mochyn yn tabŵ, sut roeddwn i'n gwybod bod y sglodion yn fwyd gwaharddedig i mi. Roeddwn i'n eu mwynhau nhw.” [Cyfieithiad o'r Saesneg] [1]

**b)** Ystyriwch a thrafodwch y canlynol mewn parau neu grwpiau bach:

- Beth yr ydych yn ei wybod am arferion crefyddol Iddewig, e.e., mynychu'r synagog, addysg grefyddol, a chyfreithiau deietegol?

**c)** Cyflwynwch y prif bwyntiau trafod i'r dosbarth cyfan.

**GWEITHGAREDD 2**

Edrychwch ar y delweddau o'r seigiau Cymreig poblogaidd a, gan weithio mewn parau, trafodwch a yw'r seigiau'n rhai *kosher* neu beidio (gweler **GWEITHGAREDD 1** i ddeall beth sy'n gwneud saig yn *kosher*/sy'n golygu nad yw saig yn *kosher*). Ysgrifennwch eich atebion ar y daflen wybodaeth ac yna trafodwch eich atebion â'r dosbarth.

**Pice ar y maen:**



……………………………………

*Ffotograff o bice ar y maen.*

[1] Ellen Davis, *Kerry's Children: A Jewish Childhood in Nazi Germany and Growing up in South Wales* (Pen-y-bont ar Ogwr: Seren, 2004), t. 61.

Delwedd: Wikimedia Commons.

**Ffagots Cymreig:**




……………………………………

[Ffagotiau o Felinfoel.](#)

Delwedd: Wikimedia Commons.

**Selsig Morgannwg:**



……………………………………

[Selsig Morgannwg](#).

Delwedd: Wikimedia Commons.

**Cawl gyda chaws Caerffili:**



……………………………………

[Cawl Cymreig](#).

Delwedd: Wikimedia Commons.

**Cregyn gleision Conwy:**



.......................................

[Cregyn gleision wedi'u coginio](). 

*Delwedd: Wikimedia Commons.*

**Pysgod a sglodion:**



.......................................

*[Pysgodyn a sglodion]().*

*Delwedd: Wikimedia Commons.*

**GWEITHGAREDD 3**

**a)** Darllenwch gofiannau byr Herman Rothman a Julius Weil, ffoaduriaid Iddewig, a ffodd i Brydain ar Kindertransport yn 1939, a'r wybodaeth am fywyd crefyddol plant yng Nghastell Gwrych.

Ganed **Herman Rothman** yn Berlin, yr Almaen, yn 1924 i rieni Iddewig Pwylaidd. Cyrhaeddodd Brydain fel ffoadur ar y Kindertransport yn Awst 1939 ac aeth i'r *hachshara* (canolfan hyfforddiant amaethyddol) yng Nghastell Gwrych, Abergele. Yn ddiweddarach ymunodd â'r Fyddin Brydeinig, gan wasanaethu yng Ngorllewin Ewrop, ac ef oedd y person cyntaf i gyfieithu ewyllys Hitler ar ôl iddo gael ei ddarganfod yn gudd ym mhad ysgwydd Natsi blaenllaw. Yn ddiweddarach daeth yn gyfreithiwr yn Llundain.

Yng **Nghastell Gwrych**, roedd plant ffoaduriaid yn astudio Hebraeg a'r Torah, ac yn dysgu am Balestina er mwyn paratoi eu hunain ar gyfer bywyd yn 'Eretz Yisrael' (gwlad Israel). Nododd un athro mai ei nod oedd "rhoi awyrgylch 'Cartref' Iddewig i'r Hachscharah cyfan, ac yn bennaf oll, dyfnhau'r teimlad crefyddol, fel ei fod yn dod yn rym real a gweithredol".

Ganed **Julius Weil** yn Dortmund, yr Almaen ym 1925. Bu'n byw yn Köln gyda'i rieni a'i frawd iau Arnold tan 1938. Ar 9-10 Tachwedd y flwyddyn honno, dinistriwyd ei ysgol ym mhogrom

*Kristallnacht*. Trefnodd prifathro Julius i drosglwyddo'r ysgol gyfan i Lundain yn llwyddiannus. Roedd Julius ar y trên Kindertransport cyntaf i adael y wlad. Ni welodd ei rieni na'i frawd byth eto. Pan ddechreuodd y rhyfel, anfonwyd Julius i Bedford, lle cafodd ei letya gyda theulu nad oedd yn Iddewon. Ym 1956, gwahoddwyd Julius i fynd i weithio yn y Standard Box and Carton Company, ym Mhentrebach, ger Merthyr Tudful. Bu farw ym mis Chwefror 2021.

**b)** Gwrandewch ar dystiolaeth Herman a Julius yn disgrifio eu bywyd crefyddol yng Nghymru.

**Trawsgrifiadau Hanes Llafar**

**Herman Rothman ar wasanaethau crefyddol yng Nghastell Gwrych:**

*Roedd yn…sefydliad crefyddol Uniongred. Roedd pawb – pob aelod yn gallu darllen, wrth gwrs, yn rhugl Hebraeg, a ninnau'n cynnal y gwasanaethau – gwasanaethau hyfryd iawn, iawn. Ac roedden nhw...roedden nhw'n meddwl bod gen i weddol dda - fe wnaethon nhw ddarganfod bod gen i lais eithaf da, ac yn aml iawn roeddwn i'n cael fy nghymryd i arwain y gwasanaethau yno.*

**Julius Weil ar ddefodau crefyddol a bwyd *kosher*:**

*Wel, ar gyfer, o blaid, ar gyfer, ar gyfer y mwyafrif—rwyf yn golygu ein bod ni, nid oeddem ni, nid oedd yr holl fechgyn yn Uniongred fel petai. [Saib.] Ac, er bod popeth yn yr hostel yn Uniongred iawn, nid yn unig, nid yn unig o ran bwyd, ond hefyd ym mhob, pob mewn bywyd; roedd gweddïau yn y bore, roedd gweddïau yn yr hwyr, roedd gweddïau ar ôl prydau bwyd. Dweud gras ar ôl prydau bwyd. Ond ni chafodd y bechgyn i gyd eu magu yn y ffordd yna a dweud y gwir. Ond un peth oedd yn bwysig wrth gwrs oedd—rydych chi'n gwybod beth yw kosher?*

*Bwyd Kosher? Pa un sy'n bwysig neu'n bwysig. Ac, [saib] roedd yn rhyfedd i unrhyw un a oedd wedi arfer â chael popeth kosher, fod mewn cartref nad oedd yn Iddew ac yn methu â chymryd rhan. [Yma, mae Julius yn sôn am pan gafodd lety gyda theulu nad oedd yn Iddewon yn Bedford.]*

*Ond trefnodd y bobl oedd yn ein noddi, sef y cymunedau y soniais amdanynt o'r blaen, i gael bwyd, bwyd kosher yn cael ei anfon i lawr.*

**c)** Gan weithio'n unigol neu mewn parau, atebwch y cwestiynau canlynol:

- Pa mor bwysig oedd crefydd i ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru?
- Pam y gallai crefydd fod yn bwysig i ffoaduriaid sy'n ffoi i wlad newydd?
- Pam dylen ni barchu crefydd pobl eraill?

**GWEITHGAREDD 4**

Ysgrifennwch baragraff byr (tua 150-200 gair) am rywbeth sy'n bwysig i chi, rhywbeth rydych chi'n ei fwynhau, neu sy'n rhoi sefydlogrwydd i chi, neu sy'n rhoi strwythur ac ystyr i'ch bywyd, e.e., system gred, hobi, perthynas, digwyddiad rheolaidd.

Ystyriwch sut y byddech yn teimlo pe baech yn cael eich cludo'n sydyn i rywle lle na allech gymryd rhan yn y pethau hyn. A ydych yn adnabod unrhyw un y mae hyn wedi digwydd iddo?